



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Gareth Williams
Clerc
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27/06/2014

Annwyl Mr Williams

Ymchwiliad y Pwyllgor: Deddfu yn y Pedwerydd Cynulliad

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle i gyfrannu sylwadau at yr ymchwiliad.

Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg. Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os dynt yn dymuno gwneud hynny.

Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Caiff y Comisiynydd ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith, ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau.

Un o flaenoriaethau'r Comisiynydd yw craffu ar ddatblygiadau polisi o ran y Gymraeg. Felly, prif rôl y Comisiynydd yw darparu sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru y gallai'r

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



diwygiadau arfaethedig effeithio arnyn nhw. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio, a phe bai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad y sefydliad yn unol â darpariaethau'r Mesur.

Yn ddiweddar bu Comisiynydd y Gymraeg mewn trafodaethau gyda Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, am y broses ddeddfu, a'r ystyriaeth sydd yn cael ei roi i'r Gymraeg yn ystod y broses honno.

Deilliodd y trafodaethau o'r pryder nad yw'r Gymraeg yn ymddangos yn ganolog mewn deddfwriaeth a bod cynifer o filiau yn cael eu cyhoeddi heb unrhyw gyfeiriad at yr iaith. Trafodwyd y farn na ddylid dibynnu ar Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn unig i ateb holl ofynion cyfreithiol y Gymraeg.

Cyflwynwyd papur yn cynnwys dadansoddiad o'r sefyllfa bresennol ynghyd ag argymhellion ar sut i gryfhau a chysoni'r drefn o ystyried y Gymraeg mewn deddfwriaeth. Mae'r argymhellion a gyflwynwyd i'r Prif Weinidog yn sail i gynnwys yr ymateb hwn. Mewn ymateb i'r adroddiad, esboniodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn datblygu fframwaith i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn gynnar yn y broses o greu polisiau newydd ac y bydd biliau newydd ac ymgynghoriadau cyhoeddus yn dod o fewn cwmpas y drefn honno.

Datblygu ac esbonio polisiau

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg Adroddiad Safonau mewn perthynas â Gweinidogion Cymru yn ddiweddar, a daw i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau llunio polisi fod yn benodol gymwys i Weinidogion Cymru.¹

Mae Gweinidogion Cymru eisoes wedi ymrwmo i sicrhau eu bod yn manteisio ar bob cyfle i sicrhau bod deddfwriaeth ac is ddeddfwriaeth newydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Gymraeg.² Yn dilyn o hyn, adroddodd Comisiynydd y Gymraeg y dylai Gweinidogion Cymru bennu safon neilltuol drwy reoliadau ar gyfer ei swyddogaethau sy'n ymwneud â deddfwriaeth ac is ddeddfwriaeth a wneir yng Nghymru ac ystyried hefyd unrhyw ddeddfu sy'n digwydd ar y cyd gyda'r DU.³

Wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth newydd awgrymwyn dylid dilyn yr egwyddorion sydd ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; sef:

- Ystyried pa effeithiau, os o gwbl, y byddai'r ddeddfwriaeth yn ei gael ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffurfiol na'r Saesneg.

¹ Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Gweinidogion Cymru, Tudalen 30.

² Adran 4.1, Cynllun iaith Gymraeg, Llywodraeth Cymru 2011-2016

³ Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Gweinidogion Cymru, Tudalen 42.



- Ystyried sut y gellid datblygu'r ddeddfwriaeth fel ei fod yn cael effaith positif, neu fwy positif ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Ystyried sut y gellid datblygu'r ddeddfwriaeth fel nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu fel ei fod yn cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pan ddaw at ymgynghori gyda'r cyhoedd, nid yw'r dulliau presennol yn annog ymatebion i ystyried materion ehangach, megis y Gymraeg. Mae hyn yn arwain at sefyllfa lle dim ond sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb uniongyrchol yn y Gymraeg sy'n cyfeirio at yr iaith. Wrth ymgynghori, dylid annog ymatebion i ystyried yr egwyddorion uchod er mwyn sicrhau fod ymrwymadau'r cynllun iaith Gymraeg, a safonau mewn perthynas â'r Gymraeg maes o law, yn cael eu gweithredu yn llawn.

Gwaith craffu'r Cynulliad

Ar hyn o bryd; nid yw'r broses graffu yn effeithiol pan ddaw at ystyried y Gymraeg mewn deddfwriaeth. Mae gan bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu meysydd pwnc penodol. Mae natur pynciol y craffu yn culhau gallu'r pwyllgorau i ystyried materion trawsbynciol, megis y Gymraeg.

Mae'r Comisiynydd wedi gwneud cais i'r Pwyllgor Materion Cymreig a'r Cydbwyllgor Hawliau Dynol Yn San Steffan i ystyried gofynion Deddf yr iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wrth graffu ar ddeddfwriaeth Brydeinig. Yn yr un modd, un o argymhellion y papur a cyflwynwyd i'r Prif Weinidog oedd bod angen ffurfioli trefniadau mewnol ar gyfer ystyried i ba raddau dylid cynnwys y Gymraeg mewn deddfwriaeth ddrafft. Hynny yw, er mai'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol sydd yn gyfrifol am graffu ar y Gymraeg, caiff deddfwriaeth ei ystyried gan wahanol bwyllgorau craffu. Mae angen trefn ar gyfer sicrhau fod pob pwyllgor yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Gymraeg wrth graffu ar ddeddfwriaeth.

Gan ddefnyddio'r Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol fel enghraifft; cyflogir Ymgynghorydd Cyfreithiol gan y Cydbwyllgor i ystyried pob un Bil Llywodraeth y DU i weld os yw'n croesi'r trothwy arwyddocâd er mwyn cael ei ystyried gan aelodau'r Cydbwyllgor. Mae'r meini prawf y mae'n rhaid i'r Bil fodloni er mwyn croesi'r trothwy arwyddocâd yn cynnwys materion megis faint o bobol sydd yn cael eu heffeithio gan y Bil ac os yw'r pobl hynny yn agored i niwed. Ystyrir hefyd effaith wleidyddol a chyhoeddus y Bil, y sylw mae wedi denu yn y wasg, a'r graddau y mae'r Bil yn hyrwyddo ac yn gwarchod hawliau dynol, neu os yw â photensial i wneud hynny ond nid yw'n gwneud. Mae'r cydbwyllgor hefyd yn adrodd os yw'n fater mae wedi rhoi sylwi iddo yn flaenorol, ond bod Llywodraeth y DU wedi methu ag ymgorffori unrhyw argymhellion â wnaed.

Mae'r ffordd yma o sifftio a chraffu yn golygu bod modd adrodd yn gynharach yn ystod taith y Bil drwy'r Senedd a chryfhau effaith unrhyw adroddiad gan y Cydbwyllgor. Gofynnwn oes gan y Cynulliad yr adnodd cyfreithiol i weithio mewn modd tebyg i'r uchod gan ystyried yn benodol yr iaith Gymraeg?



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Technegau Drafftio

Wrth ystyried technegau drafftio, ac yn benodol, drafftio dwyieithog a chyfieithu, bydd gofyn i Lywodraeth Cymru roi sylw gofalus i'w chapasiti i ddrafftio deddfwriaeth ddwyieithog at y dyfodol a buddsoddi'n strategol er mwyn ymateb i'r galw hwn.

Amlygodd Proses Dendro Fframwaith Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd Llywodraeth Cymru mai prin iawn oedd y cyfieithwyr llawrydd a ymgeisiodd oedd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i ddiwallu anghenion y Llywodraeth a gweddill y sector cyhoeddus. Dylid sicrhau nad oes gorddibyniaeth ar y proffesiwn cyfieithu er mwyn diwallu'r angen am ddrafftio deddfwriaethol dwyieithog. Yn hytrach, dylai Llywodraeth Cymru arloesi yn y maes hwn gan sicrhau bod swyddogion yn cael eu hyfforddi a'u harfogi â'r sgiliau cyfreithiol ac ieithyddol angenrheidiol er mwyn sicrhau drafftio o'r radd flaenaf yn y ddwy iaith. Dylid ystyried hefyd sut y gellid defnyddio technoleg er mwyn hwyluso'r gwaith hwn ymhellach gan sicrhau cysondeb a safon yn ogystal ag arbedion ariannol.

Noda *laith fyw: laith byw* mai Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am 'gydgysylltu datblygiadau ym maes terminoleg'. Yn sgil y cyfrifoldeb hwn mae'r Comisiynydd wedi cynnal arolwg o'r gweithgareddau presennol yn y maes gan graffu ar y bylchau yn y ddarpariaeth. Un mater a amlygwyd wrth gynnal yr ymchwil hwn oedd pwysigrwydd pennu terminoleg safonol ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg ar ddechrau taith Bil er mwyn hwyluso'r broses ddrafftio. Mae sicrhau bod terminoleg Cymraeg a Saesneg cywir a safonol ar gael yn hanfodol er mwyn hwyluso trin a thrafod unrhyw faes pwnc wrth gwrs. Mae hyn yn arbennig o wir mewn cyd-destun deddfwriaethol. Dylid sicrhau bod amser yn cael ei neilltuo ar ddechrau'r broses o ddrafftio Biliau er mwyn pennu neu fathu terminoleg safonol drwy ymgymryd â phrosiectau safoni a fydd yn tynnu ar arbenigedd ieithyddol a phynciol adrannau perthnasol.

Ymhellach, mae'n bwysig sicrhau dull effeithiol o rannu'r wybodaeth hon â'r cyfryngau a rhanddeiliaid eraill a fydd yn dymuno trafod y Bil. Bydd hyn, yn y pen draw, yn sicrhau cysondeb ac yn osgoi amlhau ffurfiau gan beri dryswch i'r cyhoedd ac eraill. Dylai Llywodraeth Cymru arwain y ffordd yn hyn a sicrhau bod terminoleg safonol – ac unrhyw adnoddau ieithyddol eraill a ddatblygir – yn cael eu rhannu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn y dull mwyaf hygyrch posibl er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y maes hwn.

Diolch am y cyfle i gynnig sylwadau ar yr ymchwiliad ar ddeddfu yn y Pedwerydd Cynulliad.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg